Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

Crynodeb o'r Gyllideb

2018/19

Cynnwys

		Tudalen
	Cyflwyniad a Chrynodeb	2-6
	Cyllideb Refeniw'r Cyngor	7
Atodiad 1:	Crynodebau o Gyllidebau Adrannol:	
	• Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	8
	• Cyllid	8
	• Gwasanaethau Addysg a Phlant	9
	• Ysgolion	9
	• Gwella Busnes a Moderneiddio	10
	• Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	10
	• Cyfleusterau, Asedau a Thai (ac eithrio'r Cyfrif Refeniw Tai)	11
	• Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	12
	• Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	13
	• Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	14
	• Corfforaethol ac Amrywiol	15
Atodiad 2:	Crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf	16-19
Atodiad 3:	Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a'r Cynllun Cyfalaf Tai	20-22

RHAGARWEINIAD A CHRYNODEB

Diben Llyfr y Gyllideb hwn yw amlygu i Aelodau, Swyddogion ac unrhyw un arall â diddordeb sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwario ei gyllidebau Refeniw a Chyfalaf. Bydd hefyd yn rhoi manylion y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllideb Cyfalaf Tai ar gyfer 2018/19.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y llyfryn hwn yn rhoi manylion costau uniongyrchol gwasanaethau sydd o dan reolaeth deiliaid cyllideb. Mae'r cyllidebau ar gyfer 2017/18 wedi eu hailddatgan yma gan gymryd i ystyriaeth ailstrwythuro gwasanaethau, er mwyn gwneud y cymariaethau'n fwy ystyrlon. Mae cyllidebau 2018/19 yn cynnwys eitemau nad ydynt eto wedi'u neilltuo i wasanaethau, fel rhai cronfeydd wrth gefn ar gyfer chwyddiant a chyllidebau i dalu am waith trwsio a chynnal a chadw.

Pennir strategaeth ariannol y Cyngor yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hon yn strategaeth ariannol dreigl tair blynedd ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gweithgarwch y flwyddyn bresennol. Gellir gweld y cynllun diweddaraf ar wefan y Cyngor.

Setliad Llywodraeth Cymru (LIC) 2018/19

Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2018/19 ar 20 Rhagfyr 2018 ac roedd yn golygu gostyngiad arian parod o -0.2% (cyfartaledd Cymru yw +0.2%). Roedd y Setliad Dros Dro a dderbyniwyd ym mis Hydref yn nodi gostyngiad o -0.9% (cyfartaledd Cymru yw -0.5%). Er mwyn dod at sefyllfa gyllidol niwtral, gan ystyried chwyddiant a gwasgfeydd o ran y galw am wasanaethau, byddai'n rhaid i'r Setliad fod wedi bod o leiaf +3.6%.

Roedd y Setliad Terfynol yn golygu gostyngiad mewn cyllid cyfalaf gan ddilyn y patrwm diweddar o setliadau gwael o ran cyfalaf. Mae'r cyllid wedi gostwng 0.64% (sy'n cyfateb i tua £0.031 miliwn) i £4.834 miliwn.

Cyllideb Refeniw 2018/19

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Ionawr 2018 bu'r aelodau'n ystyried a chymeradwyo cynigion cyllideb y Cabinet ac effaith y rheiny ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
Roedd y prif gynigion yn cynnwys:

- Gostyngiad o ran arian parod yn setliad refeniw Llywodraeth Leol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru o -0.2%.
- Gostyngiad yn arian cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru o -0.64%.
- Mae 'trosglwyddiadau i mewn' (eitemau a ariannwyd drwy grantiau yn flaenorol) hefyd wedi'u cynnwys yn y Setliad gwerth cyfanswm o

£2.9 miliwn. Mae'r trosglwyddiadau fel a ganlyn:
    - Elfen gwastraff y Grant Amgylcheddol Sengl: £1.2 miliwn (wedi'i ostwng 10%)
    - Grant Byw'n Annibynnol Cymru: £0.8 miliwn
    - Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol: £0.6 miliwn.
    - Plant sy'n Derbyn Gofal: £0.2 miliwn
    - Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr: £0.1 miliwn
- Mae cyfrifoldebau newydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Setliad a bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r gwasanaethau perthnasol. Y rhain yw:
    - Cefnogaeth i Atal Digartrefedd: £0.155 miliwn
    - Cynnydd yn y Terfyn Cyfalaf ar gyfer Ffioedd Gofal Preswyl: £0.251 miliwn
- Ariennir gwasgfeydd o ran cyflogau, pensiynau a'r Cyflog Byw Cenedlaethol (£1.6 miliwn)
- Chwyddiant prisiau ac ynni (£250,000)
- Cynyddu ardoll y gwasanaeth tân 1% (£44,000)
- Ystyriaeth ar gyfer cynnydd yng nghostau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, gostyngiad
  yn Grant Gweinyddu'r Adran Gwaith a Phensiynau a chronfeydd wrth gefn canolog (£740,000)
- Cynnydd o £1.8 miliwn mewn cyllid i ysgolion.
- Darparu £0.750 miliwn i gydnabod y gwasgfeydd ariannol parhaus ym maes gofal cymdeithasol.
- Darparu £0.750 miliwn i gydnabod y gwasgfeydd ym maes Gwasanaethau Plant sydd wedi codi ers 2016/17.
- Buddsoddi £0.5miliwn mewn meysydd blaenoriaeth.
- Er mwyn ariannu'r gwasgfeydd a nodwyd, bu'n rhaid canfod arbedion o £4.6 miliwn.
  Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Newidiadau ym mholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw'r Cyngor (a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym mis Medi 2017), gan greu arbedion parhaus o £2 miliwn.
    - Arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2017/18 (£1 miliwn)
    - Arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau (£1.2 miliwn)
    - Arbedion gwasanaethau (£0.4 miliwn)
    - Defnyddio £2.0 miliwn o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Gostyngiad yn y Gyllideb

Y gyllideb refeniw gros ar gyfer 2018/19 yw £305.812 miliwn. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu neu'n derbyn £49.589 miliwn mewn ffioedd a thaliadau ac incwm arall, ac yn derbyn £61.805 miliwn mewn grantiau penodol, gan adael cyllideb refeniw net o £194.418 miliwn i'w ddiwallu gan Lywodraeth Cymru a Threthdalwyr. Mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2018/19 yn £112.860miliwn a disgwylir cynhyrchu £49.299 miliwn drwy Dreth y Cyngor. Dyrannwyd £30.259 miliwn i'r Cyngor o'r gronfa Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Mae'r gyllideb o £194.418 miliwn yn £4.438 miliwn uwchben yr Asesiad Gwario Safonol sef £189.980 miliwn – amcangyfrif Llywodraeth Cymru o'r hyn sydd ei angen i ddarparu 'lefel gwasanaeth safonol'.



Mae'r cynnydd ar gyfer y gyllideb fel a ganlyn:

	£000
Cyllideb Sylfaenol 2017/18	**189,252**
Diogelu a Chwyddiant	5,937
Grantiau bellach wedi'u cynnwys neu eu trosglwyddo allan o'r setliad	2,934
Arbedion ac Arbedion Effeithlonrwydd Corfforaethol	(3,000)
Arbedion ac Arbedion Effeithlonrwydd Gwasanaethau Penodol	(1,611)
Cyfrifoldebau Newydd	406
Buddsoddi mewn blaenoriaethau	500
Cyllideb Refeniw Net 2018/19	**194,418**

Mae tudalen 7 yn dangos crynodeb o'r gyllideb refeniw fesul gwasanaeth ar gyfer 2018/19 a 2017/18 gyda'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi gwybodaeth fanylach am bob gwasanaeth.

Balansau

Roedd y Cyngor wedi datblygu balansau cyffredinol o £7.135 miliwn ar 31 Mawrth 2017, yn ogystal â lefel doeth o arian penodol wrth gefn. Mae cyllideb 2018/19 wedi'i gosod wrth ddefnyddio £2.0 miliwn o gronfeydd a balansau ariannol gyda chytundeb i ddefnyddio £1.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn gynaliadwy yn y tymor byr ond nid yw'n ateb tymor hir. Mae'n rhaid i'r defnydd o arian parod gael ei adennill dros flynyddoedd i ddod ond gellir ei ddefnyddio i esmwytho effaith gostyngiadau cyllid mewn modd wedi'i gynllunio.

Treth y Cyngor

Eleni cytunodd aelodau etholedig ar gynnydd o 4.75% yn Nhreth y Cyngor. Mae Treth y Cyngor sy'n daladwy ar gyfer pob band eiddo am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych wedi'i fanylu isod:

Band Treth	Treth y Cyngor 2018/19 £	Treth y Cyngor 2017/18 £
A	831.89	794.17
B	970.54	926.54
C	1,109.19	1,058.90
D	1,247.84	1,191.26
E	1,525.14	1,455.98
F	1,802.44	1,720.71
G	2,079.73	1,985.43
H	2,495.68	2,382.52
I	2,911.63	2,779.61

Cynllun Cyfalaf 2018/19

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrif am ei fuddsoddiad yn ei asedau sefydlog ar wahân i drefniadau beunyddiol y sefydliad. Bydd prosiectau cyfalaf yn prynu, trwsio, adnewyddu a datblygu asedau fel y gellir dal i'w defnyddio yn y dyfodol.

Yn setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 bu gostyngiad o 0.64% (£0.031 miliwn) o'i gymharu â 2017/18. Mae hyn yn parhau'r setliadau cyfalaf gwael iawn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. Yn ogystal â hyn, mae grantiau penodol yn y dyfodol yn debygol o gael eu gosod ar lefel is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i barhau i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu clustnodi adnoddau i gynhyrchu arian, gan ddefnyddio benthyca darbodus neu hyd yn oed werthu asedau i gynhyrchu derbyniadau.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun cyfalaf 3 blynedd sy'n rhoi manylion ynglŷn â lle y mae'n debygol o wario ei arian. Bydd pob cais am adnoddau cyfalaf yn cael ei adolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (grŵp sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion) cyn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Cymeradwyodd y Cyngor y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2018. Mae crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf ar dudalen 16, ynghyd â dadansoddiad fesul gwasanaeth ar dudalennau 17-19.

Stoc Tai

Mae gan y Cyngor ddwy swyddogaeth o ran tai. Mae'r cyntaf yn swyddogaeth statudol i fynd i'r afael â digartrefedd yn y Sir. Mae'r ail fel landlord stoc dai'r Cyngor, sy'n cynnwys tua 3,409 o anheddau. Er bod y gyllideb ddigartrefedd wedi'i chynnwys yng nghyllideb refeniw cyffredinol y Cyngor, mae'n rhaid i'r stoc dai gael ei chyfrif ar wahân.

Mae'r gyllideb ar gyfer y stoc dai wedi'i chadw yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i hwn gael ei gadw yn hollol ar wahân i wasanaethau eraill. Ni all Treth y Cyngor gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai. Cafodd Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai 2018/19 ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 23 Ionawr 2018. Amcangyfrifir y bydd yn gwario £16.309 miliwn, a ariannwyd gan renti tai sef £15.140 miliwn, incwm arall o £0.539 miliwn, a defnyddio £0.630 miliwn o falansau cyffredinol. Mae'r cynllun cyfalaf tai ar gyfer 2018/19 yn cynnwys cyfanswm o £10.233 miliwn i'w wario ar wella'r stoc dai, buddsoddi mewn caffaeliadau ac adeiladau newydd a gwelliannau eraill.

Mae'r Cynllun Busnes Stoc Tai yn tybio y cynhelir balans o £1 miliwn dros y tymor canolig i liniaru ar unrhyw risgiau yn y dyfodol. Mae'r lefel hon o falans a gedwir yn fwy na 6.4% o'r trosiant refeniw blynyddol a thybir fod hyn yn ddarbodus a chall yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan ganiatáu rhywfaint o aallu i ymateb i unrhyw amgylchiadau annisgwyl sy'n codi yn ystod tymor byr y Cynllun hyd at y tymor canolig. Mae cadw'r balans ar lefel y gellir ei reoli yn lleihau'r angen i estyn y lefel gyfredol o fenthyca ac o ganlyniad ceir arbedion yng nghostau ariannu cyfalaf blynyddol. Mae'r strategaeth hon hefyd yn rhoi mwy o ryddid ym mlynyddoedd diweddarach y Cynllun i estyn y gofyniad benthyca os oes angen, ond hefyd gan sicrhau bod yr Awdurdod yn aros o fewn y Cyfyngiad ar Ddyled y Cyfrif Refeniw Tai fel y gosodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyflawnodd y Cyngor Safon Ansawdd Tai Cymru gydol y Stoc Tai ym mis Medi 2014. Mae gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn y CBST sy'n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal y safon hon hyd at ddiwedd y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd o ganlyniad wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes.

Mae crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai wedi'i gynnwys yn y Llyfr Cyllideb hwn.

Casgliad

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio'n ariannol mewn amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd.

Mae'n fwy tebygol bellach y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, ni fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Yn ôl Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol y Cyngor mae'n ofynnol arbed dros £6 miliwn y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Mae'r gyllideb sydd wedi'i chynnig ar gyfer 2018/19 yn caniatáu amser i'r cyngor lunio rhaglen gyllideb a chynigion ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ddiweddaru yn 2018 a bydd yn ategu'r broses gyllidebol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae gwasgfeydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn risg barhaus ar gyfer y cyngor hwn a phob cyngor arall. Mae'r cynigion yn 2018/19 o gymorth i liniaru ar y galw a'r gwasgfeydd o ran costau ond nid yw'n ddigonol i ariannu'r holl wasgfeydd sylfaenol yn llawn ac yn barhaol. Mae'r gwasgfeydd o ran costau o fewn meysydd gwasanaeth eraill yn cael eu rheoli ond gallai fod yn risg mewn blynyddoedd i ddod.

Caiff cydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb ei gydnabod yn ddiolchgar.

RICHARD WEIGH
PENNAETH CYLLID (SWYDDOG ADRAN 151)

CYNGOR SIR DDINBYCH – CYLLIDEB REFENIW

	CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	2017/18 £
CRYNODEB O GYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR		
CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA	2,830,292	2,970,912
CYLLID	3,139,958	2,914,066
GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT	14,122,934	12,954,981
YSGOLION	68,166,351	66,942,241
GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO	4,572,562	4,613,132
GWASANAETHAU CYFREITHIOL, ADNODDAU DYNOL A DEMOCRATAIDD	2,623,548	2,623,182
CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI	7,823,666	6,931,053
PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL	18,471,845	17,514,420
CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	2,980,965	3,000,519
GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL	35,010,804	32,355,881
CYFANSWM GWASANAETHAU	**159,742,925**	**152,820,387**
CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL	19,141,647	18,942,299
PRAESEPTAU AC ARDOLLAU	4,568,797	4,524,683
ARIANNU CYFALAF	10,964,631	12,964,631
CYFANSWM CYLLIDEB Y CYNGOR	**194,418,000**	**189,252,000**

Atodiad 1

	CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	2017/18 £
CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA		
RHEOLAETH A CHYMORTH	**202,096**	**199,479**
RHEOLI CYRCHFANNAU A CHYFATHREBU		
CYFATHREBU CORFFORAETHOL	227,737	224,010
EISTEDDFOD RYNGWLADOL LLANGOLLEN	6,080	93,510
TWRISTIAETH	303,430	312,164
PROSIECTAU CORFFORAETHOL	-7,410	-7,410
CYFANSWM RHEOLI CYRCHFANNAU A CHYFATHREBU	**529,837**	**622,274**
LLYFRGELLOEDD A GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL		
LLYFRGELLOEDD	1,081,475	1,141,141
GWASANAETH LLYFRGELL I'R CARTREF	26,071	25,086
RHEOLAETH A CHYMORTH	-6,908	4,783
LLYFRYDDIAETH	39,378	39,378
Y CAPEL	52,093	53,137
SIOPAU UN STOP	638,875	623,296
DECHRAU DA	8,798	8,344
CYFANSWM LLYFRGELLOEDD A GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL	**1,839,782**	**1,895,165**
GWASANAETHAU CWSMERIAID		
GOFAL CWSMERIAID	258,577	253,994
CYFANSWM GWASANAETHAU CWSMERIAID	**258,577**	**253,994**
CYFANSWM CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA	**2,830,292**	**2,970,912**

CYLLID		
CYLLID CANOLOG		
TRYSORYDD A CHYMORTH	142,211	140,581
CYFRIFON	1,213,528	1,254,504
Y TRYSORLYS	471,055	466,817
CYFANSWM CYLLID CANOLOG	**1,826,794**	**1,861,902**
REFENIW A BUDD-DALIADAU		
REFENIW	1,543,508	1,282,508
COSTAU CASGLU	-230,344	-230,344
REFENIW A BUDD-DALIADAU	**1,313,164**	**1,052,164**
CYFANSWM CYLLID	**3,139,958**	**2,914,066**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	 2017/18 £
GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT		
ADDYSG		
RHEOLAETH A CHYMORTH	35,082	34,358
RHEOLI ASEDAU	245,849	255,107
CYMORTH BUSNES	225,486	222,069
MODERNEIDDIO ADDYSG	154,748	149,905
CYMORTH I LYWODRAETHWYR	2,763	2,763
COSTAU AD-DREFNU YSGOLION	60,713	60,713
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIANT	2,669,821	2,631,062
RHEOLAETH	623,163	612,608
ADENNILL COSTAU	-1,315,405	-1,315,405
GRANTIAU SI AC I	347,303	347,303
GWELLA YSGOLION	1,722,334	1,715,904
CYFANSWM YR ADDYSG	**4,771,857**	**4,716,387**
GWASANAETHAU PLANT		
GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD	**845,646**	**798,240**
GWASANAETHAU PLANT SY'N DERBYN GOFAL	4,357,803	3,371,260
GWASANAETHAU PLANT ERAILL	221,416	221,340
DIOGELU AC ADOLYGU	283,786	278,182
STRATEGAETH Y GWASANAETH	3,408,988	3,338,655
TROSEDDAU IEUENCTID	233,438	230,917
CYFANSWM GWASANAETHAU PLANT	**9,351,077**	**8,238,594**
GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT	**14,122,934**	**12,954,981**

YSGOLION		
YSGOLION – DIRPRWYEDIG	**73,081,939**	**71,311,357**
YSGOLION – ANNIRPRWYEDIG		
ADDYSG GYNRADD – ANNIRPRWYEDIG	**-1,941,663**	**-1,689,906**
UWCHRADD – ANNIRPRWYEDIG	-2,971,851	-2,838,994
YSGOLION ARBENNIG – ANNIRPRWYEDIG	-2,074	159,784
CYFANSWM YSGOLION – ANNIRPRWYEDIG	**-4,915,588**	**-4,369,116**
CYFANSWM YSGOLION	**68,166,351**	**66,942,241**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	2017/18 £
GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO		
GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO		
RHEOLI GWYBODAETH	**333,881**	**319,364**
TÎM RHEOLI	376,540	416,870
CYNLLUNIO STRATEGOL	397,265	394,188
SWYDDFA RHAGLENNI CORFFORAETHOL	306,063	311,804
ARCHWILIO	165,465	166,584
DIOGELWCH CYMUNEDOL	28,408	28,790
CYFANSWM GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO	**1,607,622**	**1,637,600**
TGCh		
RHEOLI TGCh:	**2,525,587**	**2,536,179**
CEFNOGAETH DARPARU GWASANAETH	374,724	374,724
SEILWAITH TGCh	64,629	64,629
CYFANSWM TGCh	**2,964,940**	**2,975,532**
CYFANSWM GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO	**4,572,562**	**4,613,132**

GWASANAETHAU CYFREITHIOL, ADNODDAU DYNOL A DEMOCRATAIDD		
GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD		
RHEOLAETH A CHYMORTH	179,194	178,514
GWEINYDDU	409,299	428,348
CYFREITHWYR Y SIR	642,224	654,133
DINESIG	7,050	12,050
CYFIEITHU	172,000	172,000
CAFFAEL	202,284	191,003
COFRESTRYDD – GENI/MARW/PRIODI	50,275	46,954
COFRESTRU ETHOLWYR	110,901	109,248
CYFANSWM GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD	**1,773,227**	**1,792,250**
ADNODDAU DYNOL STRATEGOL		
RHEOLAETH A CHYMORTH	-69,413	-69,413
HYFFORDDIANT	48,698	47,849
IECHYD GALWEDIGAETHOL	14,305	12,883
ADNODDAU STAFF A CHYSYLLTIADAU	813,789	796,736
HYFFORDDEION	42,942	42,877
CYFANSWM ADNODDAU DYNOL STRATEGOL	**850,321**	**830,932**
CYFANSWM GWASANAETHAU CYFREITHIOL, ADNODDAU DYNOL A DEMOCRATAIDD	**2,623,548**	**2,623,182**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	 2017/18 £
CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI (AC EITHRIO'R CYFRIF REFENIW TAI)		
GWASANAETHAU HAMDDEN		
SEFYDLIADAU HYD BRAICH	-877	929
HAMDDEN MASNACHOL	2,230,868	2,196,598
HAMDDEN STRATEGOL	332,660	313,277
CYFANSWM GWASANAETHAU HAMDDEN	**2,562,651**	**2,510,804**
RHEOLAETH A CHYMORTH	**456,712**	**459,826**
GWASANAETHAU IEUENCTID	**501,937**	**531,868**
IECHYD A DIOGELWCH	**174,975**	**169,849**
CYFLEUSTERAU		
ADEILADAU CYMUNEDOL	250,331	244,867
GLANHAU ADEILADAU	217,288	127,313
ARLWYO	678,254	562,058
CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS	283,716	279,912
GOFOD SWYDDFA	1,123,140	1,135,388
ADRAN RHEOLI CYFLEUSTERAU YSGOLION	3,385	888
DERBYNFA – RHEOLI CYFLEUSTERAU	57,332	56,751
CYFANSWM CYFLEUSTERAU	**2,613,446**	**2,407,177**
EIDDO		
CYFLEUSTERAU ARFORDIROL	**-102,622**	**-96,413**
YSTADAU AMAETHYDDOL	-68,011	-70,730
EIDDO AMRYWIOL	33,369	33,270
PRISIO AC YSTADAU	44,274	37,297
ASEDAU STRATEGOL	318,557	312,547
CYFLEUSTERAU A CHYNNAL A CHADW	1,207,037	402,087
DYLUNIO AC ADEILADU	37,473	22,761
IECHYD A DIOGELWCH	163,000	163,000
PRIF REOLWR EIDDO	314,616	479,759
YSTADAU DIWYDIANNOL	-433,748	-432,049
CYFANSWM EIDDO	**1,513,945**	**851,529**
CYFANSWM CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI (AC EITHRIO'R CYFRIF REFENIW TAI)	**7,823,666**	**6,931,053**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	2017/18 £
PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL		
CEFN GWLAD, DIWYLLIANT, TREFTADAETH		
AMGYLCHEDD – CEFN GWLAD	633,353	648,732
DIWYLLIANT	87,334	189,269
TREFTADAETH	257,042	313,190
CYFANSWM CEFN GWLAD, DIWYLLIANT, TREFTADAETH	**977,729**	**1,151,191**
RHEOLI PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL		
DEPOS	167,407	166,181
RHEOLAETH	364,359	358,423
RHEOLI STORFEYDD	30,148	28,701
CYFANSWM RHEOLI PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL	**561,914**	**553,305**
PRIFFYRDD STRATEGOL		
PONTYDD A STRWYTHURAU	286,984	281,364
CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG	97,000	97,000
RHEOLI RISG O LIFOGYDD	33,606	30,553
RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD	1,205,604	1,203,307
HAWLIAU TRAMWY	252,375	249,293
CLUDIANT CYHOEDDUS	521,488	528,567
CLUDIANT YSGOLION	4,256,326	4,218,898
GWAITH STRYD	-99,586	-89,166
CYFANSWM PRIFFYRDD STRATEGOL	**6,553,797**	**6,519,816**
STRYDLUN		
RHEOLI A GWEINYDDU	634,710	538,544
STRYDLUN GOGLEDD	1,889,796	1,896,222
STRYDLUN DE	1,822,007	1,824,183
CYFANSWM STRYDLUN	**4,346,513**	**4,258,949**
GWASTRAFF A FFLYD		
FFLYD	-49,033	-55,540
GWASTRAFF	5,316,745	4,338,688
CYFANSWM GWASTRAFF A FFLYD	**5,267,712**	**4,283,148**
UNED GWAITH		
GRŴP PROSIECTAU MAWR	-239,369	-248,554
GOLEUADAU STRYD	1,003,549	996,565
CYFANSWM UNED GWAITH	**764,180**	**748,011**
CYFANSWM PRIFFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL	**18,471,845**	**17,514,420**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	 2017/18 £
CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD		
TRAFFIG A PHARCIO		
RHEOLI TRAFFIG A PHARCIO	63,848	62,605
GWASANAETHAU PARCIO	-681,357	-696,546
RHEOLI DATBLYGIAD PRIFFYRDD	149,223	145,851
DIOGELWCH FFYRDD	323,775	315,782
RHEOLI TRAFFIG	238,172	236,351
CYFANSWM TRAFFIG A PHARCIO	**93,661**	**64,043**
CYNLLUNIO		
STRATEGAETH TAI	64,998	63,819
GRANTIAU ADNEWYDDU	48,703	42,490
CYNLLUNIO – RHEOLAETH A CHYMORTH	342,821	392,061
CYNLLUN A PHOLISI DATBLYGU	260,560	254,821
CADWRAETH A GWEITHREDU	64,979	63,515
RHEOLI DATBLYGU	59,548	48,941
RHEOLI ADEILADU	92,312	87,720
PRIDIANNAU TIR	-42,637	-43,290
CYFANSWM CYNLLUNIO	**891,284**	**910,077**
GWARCHOD Y CYHOEDD		
GWARCHOD Y CYHOEDD – RHEOLI A CHYMORTH	261,833	256,889
DIOGELWCH BWYD	221,592	217,503
GORFODI CYMUNEDOL	119,901	118,153
IECHYD A DIOGELWCH - GORFODI	94,734	92,938
IECHYD Y CYHOEDD	205,466	201,703
TRWYDDEDU	-67,852	-72,148
SAFONAU MASNACH	224,667	219,245
GORFODI TAI	257,687	252,194
CYFANSWM GWARCHOD Y CYHOEDD	**1,318,028**	**1,286,477**
DATBLYGU ECONOMAIDD A BUSNES	677,992	739,922
CYFANSWM CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	**2,980,965**	**3,000,519**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	 2017/18 £
GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL		
GWASANAETHAU CYMUNED A BUSNES		
DATBLYGU GWEITHLU A GWEINYDDU	980,041	956,746
LLYS GWARCHOD	-22,872	2,732
CYSWLLT CWSMERIAID	115,081	112,234
CYMORTH TAI	785,058	671,679
STORFEYDD TELEOFAL	207,109	203,579
CYFANSWM CYMORTH BUSNES	**2,064,417**	**1,946,970**
ARDALOEDD		
ARDAL TYMOR HIR GOGLEDD	8,279,667	8,337,344
AILALLUOGI	491,900	440,208
ARDAL TYMOR HIR DE	28,465	-46
STORFEYDD TELEOFAL	5,043,340	5,041,523
BYW'N ANNIBYNNOL Â CHYMORTH	77,648	67,104
UN PWYNT MYNEDIAD	12,985	12,437
CYFANSWM ARDALOEDD	**13,934,005**	**13,898,570**
GWASANAETHAU CLEIENTIAID		
RHEOLI AC ADOLYGU CONTRACTAU AC ASESU ARIANNOL	855,834	836,824
CYFLEOEDD GWAITH	694,080	683,526
DARPARWYR	3,024,116	2,981,169
MUDIADAU GWIRFODDOL A GRANTIAU	561,023	561,023
CYFANSWM CYMUNEDAU A LLES	**5,135,053**	**5,062,542**
GWASANAETHAU ARBENIGOL		
GOFALWYR	310,767	230,113
IECHYD MEDDWL	2,590,190	2,574,255
GWASANAETHAU ARBENIGOL	8,736,429	8,746,429
COMISIYNU, DIOGELU, CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU	940,851	925,982
CYFANSWM GWASANAETHAU ARBENIGOL	**12,578,237**	**12,476,779**
GOFAL IECHYD CEFNDY	0	0
GWASANAETHAU CANOLOG OEDOLION		
GWASANAETHAU OEDOLION	1,295,946	-1,029,111
CRONFA GOFAL INTEGREDIG	3,146	131
CYFANSWM GWASANAETHAU CANOLOG OEDOLION	**1,299,092**	**-1,028,980**
CYFANSWM GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL	**35,010,804**	**32,355,881**

	Atodiad 1 CYLLIDEB REFENIW 2018/19 £	 2017/18 £
CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL		
BUDD-DAL TRETH Y CYNGOR	**9,116,772**	**9,116,772**
CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL		
ARIAN WRTH GEFN	929,000	450,000
Y PRIF WEITHREDWR - YSGRIFENYDDIAETH	182,388	181,608
UNSAIN	26,153	25,237
CRWNER	185,228	184,421
CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL	260,214	259,898
AELODAU	971,784	971,390
ETHOLIADAU	26,660	26,660
DATBLYGU GLAN MÔR Y RHYL	203,260	202,999
CYNLLUNIO CORFFORAETHOL RHAG ARGYFWNG	1,500	1,500
EITEMAU CORFFORAETHOL	606,140	606,140
BUDDSODDIADAU AC ARIAN WRTH GEFN CORFFORAETHOL	5,253,061	5,230,507
CYLLIDEBAU A GEDWIR YN GANOLOG	1,379,487	1,685,167
CYFANSWM CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL	**10,024,875**	**9,825,527**
CYFANSWM CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL	**19,141,647**	**18,942,299**

Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2017/18 - 2020/21 **ATODIAD 2**
Y sefyllfa hyd fis Ionawr 2018

		2017/18 £000 oedd	2018/19 £000 oedd	2019/20 £000 oedd	2020/21 £000 oedd
Cynllun Cyfalaf Cyffredinol					
Gwariant Cyfalaf					
	Cyfanswm Taliadau a Amcangyfrifir - Cyffredinol	21,156	23,955	171	200
	Cyfanswm Taliadau a Amcangyfrifir - Cynllun Corfforaethol	17,276	3,241	0	0
	Wrth gefn	158	500	500	500
	Cyfanswm	38,590	27,696	671	700
Ariannu Cyfalaf					
Cyllid Allanol		16,955	12,184	4,834	4,834
Derbyniadau a Chronfeydd		10,050	2,908		
Benthyca Darbodus		11,585	12,604	171	200
Cyllid heb ei Neilltuo		0	0	(4,334)	(4,334)
	Cyfanswm Ariannu Cyfalaf	38,590	27,696	671	700

		2017/18 £000 oedd	2018/19 £000 oedd	2019/20 £000 oedd	2020/21 £000 oedd
Cynllun Corfforaethol					
Gwariant Cyfalaf Cymeradwy wedi'i gynnwys yn y cynllun uchod	Buddsoddi yng Ngofal Iechyd Cefndy	103			
	Gofal Ychwanegol	20	74		
	Cynnal a Chadw Priffyrdd a Phontydd	3,179	2,550		
	Pontydd				
	Prosiect Glasdir	8,425	263		
	Astudiaeth Dichonolrwydd - Carreg Emlyn	131			
	Ysgol Newydd Llanfair	339			
	Ysgol Newydd Y Rhyl	437			
	Ysgol Bro Dyfrdwy - Adolygu gorllewin Dyffryn Dyfrdwy	33			
	Ysgol Gymunedol Bodnant	65			
	Ysgol Glan Clwyd	3,140	354		
	Ysgol Uwchradd/Ffydd Y Rhyl 3-16	1,404	0		
Amcan o Wariant Cyfalaf		0	23,466	12,903	1,560
	Cyfanswm Taliadau a Amcangyfrifir	17,276	26,707	12,903	1,560
Gwariant Cyfalaf Cymeradwy wedi'i gynnwys yn y cynllun	Cyllid Allanol	9,882	30		
	Derbyniadau a Chronfeydd	3,432	661		
	Benthyca Darbodus	3,962	2,550		
Amcan o Ariannu Cyfalaf	Cyllid Allanol		5,405	657	
	Derbyniadau a Chronfeydd		3,183	1,751	
	Benthyca Darbodus		14,878	10,495	1,560
	Amcan o Gyfanswm y Cyllid	17,276	26,707	12,903	1,560

Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2017/18 - 2020/21

ATODIAD 2

Y Sefyllfa hyd fis Ionawr 2018

GWASANAETH CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF	2017/18 Rhaglen a Amcangyfrifir £000	2018/19 Rhaglen a Amcangyfrifir £000	2019/20 Rhaglen a Amcangyfrifir £000	2020/21 Rhaglen a Amcangyfrifir £000
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	148	21		
Cyfleusterau, Asedau a Thai	9,078	13,622		
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,781	1,942		
Gwella Busnes a Moderneiddio	743	442	171	200
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	394	393		
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	36	0		
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	7,891	7,397		
Gwasanaethau Addysg a Phlant	17,361	3,379	0	
Wrth gefn	158	500	500	500
CYFANSWM Y GWASANAETH YN GRYNO	**38,590**	**27,696**	**671**	**700**

Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2017/18 - 2020/21 **ATODIAD 2**
Y sefyllfa hyd fis Ionawr 2018

Y RHAGLEN GYFALAF MANYLION Y CYNLLUNIAU	2017/18 Amcan o'r Rhaglen £000	2018/19 Amcan o'r Rhaglen £000	2019/20 Amcan o'r Rhaglen £000	2020/21 Amcan o'r Rhaglen £000
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd				
Prosiect Gwella Ystadau Cyfreithiol		21		
Swyddfa Gofrestru'r Rhyl - Symud i Neuadd y Dref	103			
Neuadd y Sir, Rhuthun – Adnewyddu Siambr y Cyngor	45			
Cyfanswm Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	**148**	**21**	**0**	**0**
Cyfleusterau, Asedau a Thai				
Ystadau Amaethyddol	80	188		
Asbestos	361			
Cydraddoldeb	54	50		
Eiddo, Gwaith Cyfalaf Cynnal a Chadw – Dyraniad Bloc	1,096	1,573		
Gwaith Asesu Risg Tân – Adeiladau Cyhoeddus	257			
Rhaglen Effeithlonrwydd Asedau, Ynni a Charbon	88			
Datblygu Pafiliwn Corwen	39			
Cynlluniau Goleuadau Effeithlon o ran Ynni	3			
Monitro Nwy Radon	24			
Cau Swyddfa Ffordd Brighton	1			
Haul Road, Prestatyn.	5	5		
Neuadd y Sir, Rhuthun, Adnewyddu'r Maes Parcio	87			
Datblygu Glan Môr Y Rhyl a'r Parc Dŵr	5,755	10,721		
Cynllun Benthyciadau Canol y Dref	440	450		
Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl	17	200		
Canolfan Hamdden y Rhyl – Cyfleusterau cadw'n heini newydd	506	400		
Canolfan Hamdden y Rhyl – Adnewyddu'r Cyntedd	24			
Canolfan Hamdden Llanelwy – Rhoi wyneb newydd ar y cae bob tywydd	215			
Nova Prestatyn - Ailddatblygu	1			
Cyfleusterau Cyhoeddus – Rhaglen Adnewyddu	25	35		
Cyfanswm Cyfleusterau, Asedau a Thai	**9,078**	**13,622**	**0**	**0**
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd				
Grantiau Gwella Tai	1,462	1,416		
Ardaloedd Adnewyddu	149			
Cyllid Hwyluso	125			
Arolygon Ynni ARBED	14			
ARBED – Dwyrain y Rhyl	26			
Cronfa Cartrefi Clyd	200	371		
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref – Adran 106	8			
Dyraniad Bloc ar gyfer Traffig	142	155		
Meysydd Parcio	14			
Cronfa Drafnidiaeth Leol 2017-18	69			
Llwybrau Diogel yn y Gymuned 2017-18	366			
Diogelwch Ffyrdd Lleol 2017-18	96			
Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych – gweinydd newydd	110			
Cyfanswm Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	**2,781**	**1,942**	**0**	**0**
Gwella Busnes a Moderneiddio				
Cam 2 o'r Strategaeth TGCh	376	442	171	200
Cynlluniau Trefi ac Ardaloedd	350			
Grantiau Datblygu Busnes	17			
Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio	**743**	**442**	**171**	**200**

Y RHAGLEN GYFALAF MANYLION Y CYNLLUNIAU	2017/18 Amcan o'r Rhaglen £000	2018/19 Amcan o'r Rhaglen £000	2019/20 Amcan o'r Rhaglen £000	2020/21 Amcan o'r Rhaglen £000
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol				
Mân Addasiadau a Chyfarpar	254	150		
System newydd yn lle Care.com (PARIS)		59		
Buddsoddiad Gofal Iechyd Cefndy	103			
Cysgod y Gaer - Biomas	17	110		
Gofal Ychwanegol	20	74		
Cyfanswm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	**394**	**393**	**0**	**0**
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata				
Cabanau Talu Newydd	36			
Cyfanswm Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	**36**	**0**	**0**	**0**
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol				
Adnewyddu Meysydd Chwarae	16			
Cynnal a Chadw Priffyrdd	3,567	3,070		
Pontydd	699	349		
Hawliau Tramwy	69			
Rheoli Asedau	43			
Goleuadau Stryd	227	40		
Goleuadau Stryd - Golau LED cynaliadwy (Salix)	274	231		
Amddiffyn yr Arfordir – Archwiliadau a Chynnal a Chadw Hanfodol	351			
Adnewyddu Wal Clwb Hwylio'r Rhyl – Arfarnu'r Prosiect	108			
Cynllun Amddiffynfa Arfordirol Gorllewin y Rhyl	1,110	2,634		
Cynllun Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl Cam 3	28			
Cynllun Atal Llifogydd – Dinbych ac eraill	270			
Cynllun Atal Llifogydd – Dylunio a Datblygu Diserth	86			
Bwnd Llifogydd Glasdir	15			
Gerddi Botaneg – Gwaith Gwella Iechyd a Diogelwch	18			
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	1,010	1,000		
Datblygiad Harbwr y Rhyl		73		
Cyfanswm Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**7,891**	**7,397**	**0**	**0**
Gwasanaethau Addysg a Phlant				
Dyraniad Bloc i Ysgolion ar gyfer Cynnal a Chadw Cyfalaf	2,772	2,650		
Trafnidiaeth o'r Gweithle i'r Ysgol	0			
Cydraddoldeb	65			
Caffael Unedau Symudol Ysgolion	206			
Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy – Uned Symudol â Chyfleusterau Arlwyo	158			
Ysgol Bro Cinmeirch - Estyniad	121			
Ysgol Plas Brondyffyn – Ailwampio'r fynedfa	0			
Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Pontio	65			
Ysgol Bro Dyfrdwy – Ysgol Ardal Newydd	33			
Ysgol Uwchradd y Rhyl – Ysgol Newydd	437			
Ysgol Gymunedol Bodnant	65			
Ysgol Glan Clwyd – Estyniad newydd ac adnewyddu	3,140	354		
Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras – Ysgolion Newydd	8,425	263		
Ysgol Llanfair – Ysgol Newydd	339			
Ysgol Carreg Emlyn – Ysgol Newydd	131			
Ysgol Ffydd, y Rhyl	1,404			
Addasu Tai Gofalwyr Maeth		112		
Cyfanswm Gwasanaethau Addysg a Phlant	**17,361**	**3,379**	**0**	**0**
Wrth Gefn	**158**	**500**	**500**	**500**
Cyfanswm Cynllun Cyfalaf Gwasanaethau	**38,590**	**27,696**	**671**	**700**

Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA) A CHYNLLUN CYFALAF TAI CRYNODEB O GYLLIDEB 2018/19

Rhagarweiniad
Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2018, mabwysiadodd y Cabinet y gyllideb refeniw a chynllun cyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Trwy fabwysiadu'r gyllideb, cytunwyd i gynyddu rhenti ar gyfer anheddau a garejis yn unol â'r polisi gosod rhent o ddydd Llun 2 Ebrill 2018.

Cyllideb Refeniw Tai
Mae'r gyllideb Cyfrif Refeniw Tai a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar gyfer 2018/19 yn ymddangos ar y dudalen nesaf ac fe'i cyfrifwyd ar y sail ganlynol:

- Gwnaed pedwar Gwerthiant Hawl i Brynu yn 2017/18. Er bod Hawl i Brynu wedi'i atal, mae ceisiadau cyn atal wedi'u cwblhau ac mae'r Cynllun Busnes wedi cael ei brofi ar sail rhagdybiaeth na fydd unrhyw werthiant yn y dyfodol, ac nid oes unrhyw effaith andwyol ar y cynllun.
- Mae dau cyn-dŷ cyngor wedi cael eu prynu yn ystod y flwyddyn.
- Mae 25 eiddo wedi'u tynnu oddi ar y stoc ac ar fin cael eu dymchwel a'u hailddatblygu.
- Mae rhaglen o 170 o adeiladau newydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Busnes Stoc Tai.
- **Polisi Rhent Llywodraeth Cymru - Datblygodd Llywodraeth Cymru bolisi ar gyfer rhenti tai cymdeithasol a fydd yn cael ei weithredu'n gyson gan bob landlord cymdeithasol ac yn adlewyrchu eiddo'r Landlord o ran ei fath; maint; lleoliad ac ansawdd.** Mae'r mecanwaith ar gyfer cynyddu rhenti yn seiliedig ar y canlynol:
    - Rhwng 2015/16 a 2018/19, y cynnydd blynyddol yw CPI a 1.5%, a hyd at £2 yr wythnos ar gyfer tenantiaid unigol, lle bo landlord yn ceisio dod â'r rhent wythnosol cyfartalog o fewn y 'band rhent targed' (rhent targed yw cyfrifiad y Llywodraeth o beth ddylai rhent cyfartalog tenantiaid cymdeithasau tai a thenantiaid y cyngor fod).
    - Yr unig eithriad i hyn fydd os yw'r CPI yn syrthio y tu allan i ystod sydd rhwng 0% a 4%. Lle bo hyn yn digwydd, bydd angen penderfyniad gan y Gweinidog ar lefel y cynnydd rhent i'w weithredu yn y flwyddyn honno

  Ym mis Rhagfyr 2017 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru'r cynnydd fel y cytunwyd yn flaenorol. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd rhent yn 4.5% (CPI+1.5%) a £2 (lle bo'n berthnasol).
- Mae'r Cynllun Busnes Stoc Dai yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gadarn ac mae'r tybiaethau a wnaed yn ddarbodus.

Cynllun Cyfalaf Tai
Mae gwariant cyfalaf wedi ei gynnwys yn y CBST sy'n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i barhau i gynnal y safon hon hyd at ddiwedd y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd o ganlyniad wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes.

CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2018/19

2016/17 Canlyniad Terfynol £		2017/18 Cyllideb £	2017/18 Canlyniad a Ragwelwyd £	2018/19 Cyllideb a Gynigir £
	GWARIANT			
2,347,215	Goruchwylio a Rheoli - Cyffredinol	2,503,284	2,559,613	2,627,955
409,366	Goruchwylio a Rheoli - Taliadau Gwasanaeth	399,870	435,462	447,089
0	Gwasanaethau Lles	0	0	0
3,922,927	Trwsio a Chynnal a Chadw	3,883,526	4,514,148	4,585,000
6,679,508	**Cyfanswm Rheoli Tai**	**6,786,680**	**7,509,223**	**7,660,044**
5,918,623	Taliadau Cyfalaf Eitem 8	6,601,569	6,260,950	6,757,956
1,495,936	Cyfalaf a Ariannwyd drwy Refeniw	1,709,824	1,709,824	1,750,000
0	Cymhorthdal	0	0	0
83,950	Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg	80,888	80,888	141,000
14,178,017	**Cyfanswm y Gwariant**	**15,178,961**	**15,560,885**	**16,309,000**
	INCWM			
13,600,959	Rhenti (gwir swm heb gynnwys eiddo gwag)	14,329,877	14,120,502	15,140,000
338,699	Taliadau Gwasanaeth	349,001	342,000	352,000
166,344	Garejys	175,057	170,931	180,000
15,262	Llog ar Falansau ac Incwm Arall	10,355	10,355	7,000
14,121,264	**Cyfanswm yr Incwm**	**14,864,290**	**14,643,788**	**15,679,000**
-56,753	**Gwarged / Difftyg (-) am y Flwyddyn:**	**-314,671**	**-917,097**	**-630,000**
2,603,850	Balans ar ddechrau'r flwyddyn ~ Cyffredinol	2,314,671	2,547,097	1,630,000
2,547,097	Balans ar ddiwedd y flwyddyn ~ Cyffredinol	2,000,000	1,630,000	**1,000,000**

CYNLLUN BUSNES STOC TAI 2017/18 - 2021/22

CRYNODEB	2017-18 £000	2018-19 £000	2019-20 £000	2020-21 £000	2021-22 £000
GWARIANT CYFALAF					
Gwelliannau a Gynlluniwyd	5,877	6,238	5,455	5,104	5,240
Codi Adeiladau Newydd	0	3,506	6,008	7,733	6,995
Caffael/Derbyniadau Tir	4,688	0	1,650	150	122
Gwelliannau eraill	480	489	770	785	743
	11,045	**10,233**	**13,883**	**13,772**	**13,100**
ARIANNU CYFALAF					
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	2,409	2,409	2,409	2,409	2,409
Derbyniadau Cyfalaf y gellir eu defnyddi	126	0	0	0	0
Derbyniadau Cyfalaf eraill	0	300	1,100	0	0
Cyfalaf a Ariannwyd drwy Refeniw	1,710	1,750	1,436	884	586
Benthyca Darbodus	6,800	5,774	8,938	10,479	10,105
	11,045	**10,233**	**13,883**	**13,772**	**13,100**
GWARIANT REFENIW					
Rheoli	2,995	3,075	3,175	3,291	3,413
Trwsio a Chynnal a Chadw	4,514	4,585	4,677	4,857	5,047
Cyfalaf a Ariannwyd drwy Refeniw	1,710	1,750	1,436	884	586
Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg	81	141	144	145	147
Costau Ariannu Cyfalaf	6,261	6,757	7,251	8,001	8,834
	15,561	**16,308**	**16,683**	**17,178**	**18,027**
INCWM REFENIW					
Incwm Rhenti	14,427	15,468	16,478	16,965	17,811
Eiddo Gwag	-306	-328	-347	-354	-368
Taliadau Gwasanaeth	342	352	361	371	382
Incwm Garejys	171	180	186	191	197
Llog ar Falansau	10	6	5	5	5
	14,644	**15,678**	**16,683**	**17,178**	**18,027**
BALANSAU					
Balans a ddygwyd ymlaen	2,547	1,630	1,000	1,000	1,000
Gwarged / Diffyg (-) am y Flwyddyn	-917	-630	0	0	0
Balans a ddygir ymlaen	**1,630**	**1,000**	**1,000**	**1,000**	**1,000**